

# Crynodeb o werthusiad prosiect Croeso Sir Benfro ‘Agored i Bawb’

Mae'r adroddiad gwerthuso cryno hwn yn werthusiad o **brosiect Agored i Bawb** a gynhaliwyd gan Croeso Sir Benfro rhwng Ionawr a Rhagfyr 2022. Ariannwyd y prosiect gan Gronfa Adnewyddu Cymunedol Llywodraeth y DU.

Nod y prosiect oedd gwneud Sir Benfro yn gyrchfan ragorol sy’n cynnig gwasanaeth a chyfleusterau gwych i ymwelwyr lleol a thwristiaid sydd ag anableddau gweladwy a chudd.

Cyflawnwyd y gwaith gwerthuso gan werthuswr allanol y prosiect, Dilys Burrell. Lluniwyd y fersiwn gryno hon o'r gwerthusiad gan reolwr y prosiect, Corinne Cariad.

I gael yr adroddiad gwerthuso llawn e-bostiwch - admin@visitpembrokeshire.com

Pembrokeshire
SIR BENFRO

UK Government
Llywodraeth y DU

Mae’r llun ar y dudalen flaen ar gael yn **Llyfrgell Delweddau** Croeso Sir Benfro.




Trafodaeth Man Agored,
Cynhadledd Agored i Bawb

# Crynodeb

Mae prosiect Agored i Bawb Croeso Sir Benfro wedi dechrau rhywbeth “allai fod yn rhywbeth da iawn”. Mae hyfforddiant wedi'i ddatblygu a'i gyflwyno, mae adnoddau wedi'u creu, ac mae busnesau ac unigolion o'r un feddylfryd wedi'u cysylltu a'u hysbrydoli i gydweithio i wneud Sir Benfro yn gyrchfan flaenllaw ar gyfer twristiaeth hygyrch a chynhwysol. Mae pobl anabl, mentrau cymdeithasol ac elusennau wedi bod yn

ganolog i'r prosiect ac yn cael eu talu i ddarparu gwasanaethau.

Dylai'r unigolion fu'n cynorthwyo i wireddu'r prosiect Agored i Bawb fod yn falch iawn o'r hyn a gyflawnwyd ganddynt, a'r un modd dylai'r busnesau a'r bobl ddaeth ynghyd i gefnogi ac ysbrydoli ei gilydd fel rhan o'r prosiect, fod yr un mor falch. Mae'r adborth ar y prosiect a gasglwyd fel rhan o'r gwerthusiad wedi bod yn hynod gadarnhaol.




Ymweliad ymgyfarwyddo â Fferm Folly

Ariannwyd prosiect Agored i Bawb 2022

gan Lywodraeth y DU drwy Gronfa Adnewyddu Cymunedol y DU. Dymuniad pob busnes a sefydliad a gymerodd ran yw i'r gwaith barhau.

Gallai Croeso Sir Benfro, Cyngor Sir Penfro ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro chwarae rhan flaenllaw wrth wneud i hyn ddigwydd. Mae busnesau a sefydliadau am gefnogi mwy o weithgaredd Agored i Bawb ac yn barod i gyfrannu adnoddau tuag at hynny.

Y peth pwysig yn awr yw dechrau cynllunio gweithgaredd yn 2023 a thu hwnt. Unwaith y cytunir ar gam nesaf y gweithgaredd, mae cysylltiadau personol, ac amserau a chynigion sy'n gyfeillgar i fusnes, yn debygol o fod yn bwysig i sicrhau'r cyrhaeddiad a'r effaith fwyaf posibl.

# Datblygu a chefnogi ein gweithwyr proffesiynol yn y maes twristiaeth

Mae'r prosiect Agored i Bawb wedi helpu i ddatblygu sgiliau a chefnogi datblygiad proffesiynol yn y diwydiant twristiaeth yn Sir Benfro.

Roedd nifer o'r unigolion a gymerodd ran yn y prosiect wedi canmol y prosiect:

- am gynnig amgylchedd dysgu sy'n gyfeillgar, yn anfeirniadol a chroesawgar
- am ddod â phobl ynghyd i gefnogi eu dysgu proffesiynol
- am y gweithgareddau 'bywiog'
- am wneud iddynt deimlo'n falch o Sir Benfro
- am y cyfleoedd i glywed beth mae busnesau eraill yn ei wneud

# Dyfyniadau gan fusnesau a sefydliadau a gymerodd ran

Mae'n wych gweld Sir Benfro yn arwain y ffordd ar hyn

Byddai rhoi'r gorau iddi nawr mor rhwystredig

Does dim angen i chi wario arian mawr i fod yn hygyrch ac yn gynhwysol – gall pethau bach wneud gwahaniaeth mawr

Rydyn ni ar drothwy rhywbeth da, fe allen ni ei wneud yn rhywbeth anhygoel

# Y Cyd-destun

Cyflawnwyd y prosiect Agored i Bawb yn 2022, y flwyddyn gyntaf i bethau ddechrau ‘dychwelyd i normal’ ar ôl dwy flynedd a hanner o gyfyngiadau’r pandemig.

Roedd y cyfyngiadau wedi taro'r diwydiannau twristiaeth a hamdden yn arbennig o galed. Er bod tymor yr haf 2020 a 2021 yn ddau haf prysur iawn yn Sir Benfro, roedd cyfyngiadau’r gaeaf wedi gwneud masnachu mewn llawer o fusnesau yn anodd iawn, ac mae’r diwydiant wedi colli nifer o’u staff ac wedi cael trafferth i gael staff o’r newydd ers y pandemig.

Ar ben hyn i gyd gwelwyd prisiau ynni yn codi a’r argyfwng 'costau byw' yn 2022. Mae nifer o fusnesau yn ei chael hi'n anodd aros ar agor. Byddai tîm y prosiect a'r sefydliadau a gymerodd ran wedi hoffi gweld mwy o bobl yn mynychu’r digwyddiadau hyfforddiant.

Serch hynny, er gwaethaf y cyd-destun uchod, mae ffigurau a chyflawniadau'r prosiect i'w canmol. Mae’r prosiect wedi gwneud dechrau rhagorol ac wedi rhoi llawer o bethau ar waith fydd yn caniatáu i fwy o weithgaredd Agored i Bawb gael ei ddatblygu dros y blynyddoedd i ddod.

## Ymweliadau hyfforddi ac ymgyfarwyddo

Cynigiwyd hyfforddiant yn rhad ac am ddim ar-lein ac yn bersonol. Cynhaliwyd 19 o ddigwyddiadau hyfforddi ac ymgyfarwyddo, a chynhadledd Agored i Bawb.

Yr hyfforddiant a gynigiwyd:

- Ymwybyddiaeth o bobl fyddar a thrwm eu clyw
- Tegwch ac ymwybyddiaeth o anabledd
- Cefnogi cwsmeriaid dall a rhannol ddall
- Cynhwysiant digidol
- Anableddau dysgu ac ymwybyddiaeth o awtistiaeth

**97** o unigolion sy’n gweithio yn y sector twristiaeth o

**43** o fusnesau a sefydliadau

wedi mynychu sesiwn hyfforddi neu ymweliad ymgyfarwyddo.

Ymweliadau ymgyfarwyddo â'r canlynol:

- Cabanau eco Asheston
- Fforio am fwyd ar y traethau gyda Craig Evans
- Cadeiriau olwyn traeth (APCAP)
- Fferm Folly
- Gwesty Sba St Brides
- Y Wheelabout, Penalun (Ymddiriedolaeth Harriet Davis)
- Gwesty Tŵr y Felin

Byddai 100% yn argymell yr ymweliadau a fynychwyd ganddynt i fusnesau eraill mewn twristiaeth

Dywedodd 90% eu bod wedi dysgu sut i ddenu mwy o gwsmeriaid

# Cydweithwyr arbenigol

Gan gadw at yr egwyddor 'dim byd amdanom ni hebom ni', comisiynwyd pobl anabl a sefydliadau a arweinir gan bobl anabl ar gyfer llawer o'r gwaith ymgynghori, hyfforddi a gwasanaethau.

Cefnogwyd mentrau cymdeithasol, elusennau ac Ysgol Reolaeth Prifysgol Abertawe drwy gomisiynu a chydweithio.

Elusennau

- Pobl yn Gyntaf Sir Benfro
- Clwb Arwyddo a Rhannu
- RNIB
- Ymddiriedolaeth Harriet Davis

Mentrau cymdeithasol

- Mentrau Vere
- Sylwadau: yr Anabl
- Cwmni Buddiannau Cymunedol - ceisiwr bywyd
- Prosiectau Dilys Burrell
- Haverhub

# Adnoddau Agored i Bawb

Cafodd 'cynnyrch' Agored i Bawb Sir Benfro ei greu, gan gynnwys:

- Map rhyngweithiol ar gyfer ymwelwyr anabl
- Podlediad Agored i Bawb – ymweld â Sir Benfro fel person dall
- Blog fideo Agored i Bawb – ar wyliau yn Sir Benfro fel pobl annibynnol sydd ag anableddau dysgu
- Lluniau Llyfrgell yn dangos ymwelwyr anabl

Hyfforddiant ac adroddiadau

- Sesiynau hyfforddi wedi'u recordio - opsiynau fideo a sain yn unig
- Adroddiad ar y Gynhadledd Agored i Bawb
- Canllaw ar Hygyrchedd Digidol
- Adroddiad y grwpiau ffocws

Mwy o fanylion ar **wedudalen Agored i Bawb**.

# Yr effaith a’r camau nesaf

Mae’r 43 o fusnesau a sefydliadau fu’n rhan o’r prosiect Agored i Bawb bellach yn deall mwy am **botensial y farchnad anabl** (ond roedd llawer o'r rheiny eisoes yn deall y potensial neu'n dymuno cefnogi'r farchnad anabl). Mae angen i ni ddarganfod beth mae busnesau eraill yn ei wybod, a sut allwn ni eu helpu.

Mae'r prosiect wedi creu **rhwydwaith o fusnesau a sefydliadau cefnogol**. Mae o leiaf 15 o fusnesau a sefydliadau wedi dechrau cydweithio mewn rhyw ffordd neu’i gilydd. Mae potensial i gynnwys mwy o fusnesau er mwyn cael yr effaith fwyaf posibl.

Roedd 59 o staff twristiaeth wedi mynychu’r sesiynau hyfforddi a ddarparwyd gan bobl anabl, ac mae gan y 59 bellach **fwy o brofiad o groesawu, cefnogi a chyfathrebu â phobl anabl**. Gallai Croeso Sir Benfro gynnig hyfforddiant ar degwch, amrywiaeth a chynhwysiant

rhwng Ionawr a Mawrth bob blwyddyn er mwyn cynyddu nifer y staff twristiaeth sydd â'r profiad o allu croesawu, cefnogi a chyfathrebu'n dda â phobl anabl.

Mae'r pethau y **dywedodd pobl eu bod am ddysgu mwy amdanynt** mewn ffurflenni adborth ar ddigwyddiadau wedi'u cofnodi. Gellid gofyn i fwy o fusnesau a sefydliadau beth sydd ei angen arnynt neu yr hoffent ei wybod er mwyn buddsoddi ynddo a gwneud gwelliannau i hygyrchedd a chynhwysiant.

Mae grwpiau ffocws gyda’r Clwb Arwyddo a Rhannu a Phobl yn Gyntaf Sir Benfro, adolygiad o wefan Croeso Sir Benfro gan yr RNIB, ac arolwg o farn ymwelwyr wedi ein helpu i wybod mwy am **yr hyn y mae cwsmeriaid anabl yn ei ddymuno a’r modd o wireddu hynny**.

Bydd map rhyngweithiol yn ei gwneud yn haws i bobl anabl **gael gwybod am gyfleusterau hygyrch**. Bydd hefyd yn helpu busnesau i

ddarganfod beth sydd ar gael i'w cwsmeriaid anabl.

Mae'r map rhyngweithiol, y podlediad a'r blog fideo, a'r llyfrgell delweddau i fusnesau, yn rhan o gynnyrch newydd **'Sir Benfro - Agored i Bawb'**. Hefyd dylid creu tudalen 'Agored i Bawb' sy'n ymwneud yn uniongyrchol â chwsmeriaid, ar wefan Croeso Sir Benfro.

Mae busnesau wedi gwneud **gwelliannau i hygyrchedd a chynhwysiant** o ganlyniad i'r prosiect. Dylai gwybodaeth gael ei chasglu yn awr oddi wrth ystod ehangach o fusnesau am fesurau hygyrchedd a chynhwysiant y maent wedi'u rhoi ar waith.

Mae teithio i ddigwyddiadau wedi'i fonitro, ac mae busnesau a sefydliadau o'r farn bod y prosiect wedi'i gyflwyno **yn gyfrifol ac yn gynaliadwy**. Dylai Croeso Sir Benfro ystyried sut y gall fesur a rhannu gwybodaeth am y modd y mae'n cyflawni amcan 'cyfrifol a chynaliadwy' y Cynllun Rheoli Cyrchfan.

Mae pobl anabl yn aml yn cael **gwasanaeth cwsmer gwych** yn Sir Benfro, ond mae enghreifftiau o rai anawsterau. Dylid monitro'r anawsterau hynny a chymryd camau gweithredu i'w goresgyn.

600 a mwy o gliciau ar y cyfryngau cymdeithasol a chylchlythyrau e-bost. Mae **adran ar Agored i Bawb** wedi'i **hychwanegu at gylchlythyr Masnach Croeso Sir Benfro**. Dylai hyn barhau fel bod gwybodaeth a diweddariadau am hygyrchedd a chynhwysiant yn parhau i gael eu rhannu â busnesau. Gellid hefyd ychwanegu adran ar Agored i Bawb at y cylchlythyr defnyddwyr i rannu diweddariadau ag ymwelwyr.

Gallai'r **postiadau ar y cyfryngau cymdeithasol a chyrraedd y gynulleidfa darged fod** wedi bod yn well yn ystod y prosiect. Yn yr un modd â'r cylchlythyr, dylai Croeso Sir Benfro barhau i rannu negeseuon sy'n ymwneud â gwella hygyrchedd a chynwysoldeb ar eu

sianeli cyfryngau cymdeithasol sy’n ymwneud yn uniongyrchol â masnach a defnyddwyr.

Gellid mesur **ymwybyddiaeth o gynnyrch 'Ar Agor i Bawb Sir Benfro'** yn anffurfiol fel rhan o sgyrsiau gydag ymwelwyr a chymunedau lleol.

# Y Nod Terfynol

"Bod Sir Benfro yn gyrchfan flaenllaw ar gyfer twristiaeth hygyrch a chynhwysol"

Mae gan Sir Benfro eisoes fusnesau a sefydliadau twristiaeth hygyrch a chynhwysol gwych. Mae nifer o'r busnesau a’r sefydliadau hynny yn enillwyr y cyn Wobr Twristiaeth Sir Benfro neu wobrau newydd Croeso Sir Benfro yn y categori Twristiaeth Gynhwysol. Mae rhai busnesau yn Sir Benfro wedi cael cydnabyddiaeth genedlaethol am eu gwaith i wella cynhwysiant a hygyrchedd.

Mae busnesau eraill llety a gweithgareddau yn awyddus i ddysgu a gwneud mwy. Bydd yn bwysig i greu cysylltiadau â busnesau bwyd a diod a busnesau manwerthu, ymhlith eraill, i sicrhau bod pecyn llawn o wasanaethau cynhwysol a hygyrch ar gael i ymwelwyr ac i’r gymuned leol.

Mae’r prosiect Agored i Bawb, a ariannwyd gan Lywodraeth y DU drwy Gronfa Adnewyddu Cymunedol y DU, wedi dechrau’r sgwrs ac wedi cyflawni gwaith cadarnhaol tuag at gyflawni’r nod terfynol.

Mae’r sgyrsiau fel rhan o werthuso’r prosiect wedi amlygu y gallai Sir Benfro:

- ddod yn esiampl ac yn arweinydd yn y DU neu hyd yn oed yn rhyngwladol mewn twristiaeth hygyrch a chynhwysol.
- parhau i gynnnwys a thalu pobl anabl yn deg i gefnogi’r gwaith o ddatblygu cynnig twristiaeth sy’n hygyrch ac yn gynhwysol.

Mae busnesau a sefydliadau am gydweithio i wneud i hyn ddigwydd. Gallai rhagor o waith 'Agored i Bawb' arwain at fwy o ymwelwyr anabl, mwy o ymwelwyr mewn cyfnodau tawelach, diwydiant twristiaeth sy’n fwy cyfrifol a chynaliadwy, a mwy o bobl anabl yn cael eu cyflogi.

# Casgliad

Mae'r prosiect Agored i Bawb, a ariannwyd gan Lywodraeth y DU drwy Gronfa Adnewyddu Cymunedol y DU, wedi dechrau llawer o sgyrsiau cadarnhaol, wedi gwneud cysylltiadau pwysig, ac wedi darparu gweithgareddau i gefnogi twristiaeth gynhwysol a hygyrch yn Sir Benfro.

Os bydd y sgyrsiau a'r cysylltiadau hyn yn parhau, a bod busnesau a sefydliadau yn cydweithio â'i gilydd, yna mae potensial gwirioneddol i Sir Benfro ddod yn gyrchfan flaenllaw ar gyfer twristiaeth hygyrch a chynhwysol.

Os am ddarganfod mwy neu am gymryd rhan:
[https://www.visitpembrokeshire.com/open-to-all](https://www.visitpembrokeshire.com/open-to-all)
E-bost - admin@visitpembrokeshire.com